

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

## **West Wales Dental Implant Clinic**

Dyddiad arolygu: 12 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.  
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd Profiad y Claf .....	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	12
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg .....	16
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o West Wales Dental Implant Clinic yn 10 Heol Dŵr, Caerfyrddin SA31 1PY ar 12 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd West Wales Dental Implant Clinic yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae West Wales Dental Implant Clinic yn bractis preifat sy'n gweld cleifion a atgyfeirir gan ymarferwyr eraill neu sy'n atgyfeirio eu hunain. Mae'r clinig yng Nghaerfyrddin.

Dim ond fel gwasanaeth preifat y darperir mewnbllanoleg mewn arfer deintyddol cyffredinol.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un ymarferydd deintyddol, un hylenydd a dwy nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt dan hyfforddiant).

### 3. Crynodeb

Yn ddiethriad gwelsom fod y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn West Wales Dental Implant Clinic.

Gwnaethom arsylwi ar y dull cyfeillgar a phroffesiynol a ddefnyddiai aelodau'r tîm deintyddol tuag at gleifion, a gwelsom y rhoddir cyfle rheolaidd i gleifion gynrig eu barn ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir.

Gwnaethom archwilio cofnodion cynnal a chadw cyfarpar ac ystyried golwg gyffredinol yr adeilad. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn rhoi pwyslais sylweddol ar iechyd a diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom sampl o gofnodion deintyddol pum claf, a chawsom drafodaethau â'r tîm deintyddol. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod cleifion yn deall eu hopsiynau triniaeth, a'u bod wedi cytuno â'r dull a ddewiswyd cyn i'r driniaeth ddechrau. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu gyda'r bwriad o hyrwyddo iechyd a lles cleifion.

Roedd y prif ddeintydd yn goruchwyllo'r gwaith o gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd gyda chymorth tîm bach o staff ymroddgar. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd digon o adnoddau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd y trefniadau iechyd a diogelwch yn bodloni'r holl safonau gofynnol.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau, fel yr awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)

- Darparu oergell yn benodol ar gyfer storio cyffuriau ac wedyn trefnu bod gwiriadau tymheredd dyddiol yn cael eu cynnal. (Cawsom gadarnhad ysgrifenedig bod hyn wedi digwydd ar 19/7/16).
- Dylai'r practis arddangos gwybodaeth am aelodau'r tîm mewn man lle gall cleifion ei gweld
- Sicrhau bod yswiriant indemnïad staff cynhwysfawr ar waith.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Yn ddieithriad, dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn West Wales Dental Implant Clinic.**

**Gwnaethom arsylwi ar y dull cyfeillgar a phroffesiynol a ddefnyddiai aelodau'r tîm deintyddol tuag at gleifion, a gwelsom y rhoddir cyfle rheolaidd i gleifion gynnig eu barn ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, i gael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 holiadur. Yn ddieithriad, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis.

Cawsom sylwadau gan nifer o gleifion, a oedd yn cynnwys:

*“Bodlon iawn, mae hwn yn dîm cyfeillgar iawn a hollol broffesiynol”*

*“Mae'r staff yn dda iawn am dawelu eich meddwl”*

*“Gwasanaeth proffesiynol da iawn”*

*“Roeddwn yn gwybod fy mod yn cael fy nhrin gan dîm caredig ac ystyriol iawn a oedd yn hollol broffesiynol a chymwys.”*

### Gofal gydag urddas

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Mae hyn oherwydd i ni weld bod y staff yn broffesiynol iawn ond yn gyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion yn ystod galwadau ffôn ac yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb. Roedd y mannau aros mewn ystafelloedd ar wahân a oedd yn caniatáu i sgysiau preifat gael eu cynnal gyda chleifion. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cyfyngu ar y cyfleoedd (i bobl sy'n eistedd yn yr ystafell aros) glywed y sgysiau sy'n cael eu cynnal. Gwelsom hefyd fod y drws i'r ystafell driniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn aros ar gau pan oedd cleifion yn yr ystafell.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol. Dywedodd



un claf y byddai mwy o wybodaeth wedi bod yn fuddiol. Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arni hefyd yn dangos bod y deintyddion wedi trafod triniaeth unigol y cleifion gyda nhw.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau mewnblannu deintyddol ac roedd gwybodaeth am y gwahanol gostau'n cael ei harddangos yn y man aros, yn y llenyddiaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Roedd y practis wedi datblygu llyfrynnau i gleifion, ac roedd copïau o'r rhain ar gael i'r cleifion fynd â nhw. Fodd bynnag nid oedd yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael yn y llyfrynnau hyn megis; rhestrau prisiau. (Cawsom gadarnhad ar 19/7/16 bod y rhain wedi cael eu diwygio erbyn hyn). Roedd gan y practis wefan addysgiadol iawn hefyd.

Ni welsom unrhyw lenyddiaeth yn Gymraeg a oedd yn golygu nad oedd gan gleifion fynediad at wybodaeth am y practis yn eu hiaith ddewisol. Er gwaethaf hyn, roedd dau o'r tri aelod o staff yn siarad Cymraeg ac roedd cleifion yn cael dewis ym mha iaith roeddent am drafod eu triniaeth.

Er bod arwyddion dim ysmegu dwyieithog, gwnaethom drafod y defnydd ehangach o arwyddion dwyieithog yn y practis, yn unol â Safonau'r Gymraeg 2016 a dywedwyd wrthym y byddai'r maes hwn yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.

### Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon oherwydd roedd apwyntiadau cleifion yn hirach na'r hyn sy'n ofynnol a oedd yn sicrhau nad oedd unrhyw orgyffwrdd. Cadarnhawyd hyn drwy sylwadau a dderbyniwyd yn holiaduron AGIC. Dywedodd staff wrthym eu bod yn sicrhau eu bod yn hysbysu cleifion os oedd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr ac os oedd yn absennol yn annisgwyl; byddent yn cynnig trefniadau amgen.

Roedd rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn glir yn y ffenestr ym mlaen y practis. Roedd y rhif yn cael ei restru ar y wefan hefyd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb y practis yn hysbysu cleifion am y rhif cywir i'w ffonio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael cyngor ynglŷn â sut i gael triniaeth mewn argyfwng pan oedd y practis deintyddol ar gau.

### Cadw'n iach

Ni welsom unrhyw daflenni hybu iechyd y gallai'r cleifion eu cymryd megis taflenni rhoi'r gorau i ysmegu, defnydd alcohol neu ganser y geg. Fodd bynnag,

dangosodd archwiliad o gofnodion pum claf fod cleifion yn derbyn gwiriadau a chynghor i'w cefnogi i gyflawni, a chynnal, iechyd y geg da.

Roedd arwyddion dim ysmegu yn y lleoliad i gefnogi hyrwyddo'r ddeddfwriaeth o ran amgylcheddau di-fwg.

### Gofal Unigol

Roedd cynllun adeilad y practis yn addas ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd er bod man yn y coridor a oedd yn gul ond dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod defnyddwyr cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r ystafell driniaeth i dderbyn gofal a thriniaeth. Roedd toiled hygyrch at ddefnydd cleifion.

Mae cleifion yn cael gwybodaeth lawn am y triniaethau y byddant yn eu derbyn yn ogystal â'r risgiau dan sylw. Gwneir hyn ar lafar yn ogystal â thrwy ddarparu gwybodaeth fanwl am y triniaethau, i'r cleifion ei hystyried cyn mynd ymlaen â'r driniaeth.

Gwelsom fod arolygon boddhad cleifion yn cael eu rhoi i'r cleifion ar ddiwedd pob triniaeth. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth ar sut roeddent yn teimlo am y gwasanaeth neu sut y gellid ei wella.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth breifat. Dywedwyd wrthym fod un gŵyn ffurfiol wedi cael ei dwyn i sylw'r practis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod y gŵyn wedi cael ei datrys yn foddhaol. Roedd gweithdrefn cwynion y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa ac roedd ar y wefan hefyd. Ar y pryd nid oedd y practis yn cofnodi pryderon anffurfiol er mwyn chwilio am themâu a thueddiadau. Gwnaethom awgrymu y gellid unioni hyn gyda'r bwriad o ymdrin â phroblemau cyn iddynt ddod yn gwynion ffurfiol.

Gwnaethom ofyn sut y byddai'r practis yn cynorthwyo cleifion ag anghenion ychwanegol a dywedwyd wrthym y byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu ar gyfer diwedd sesiwn y bore neu brynhawn i ganiatáu amser ychwanegol i drafod triniaeth a chynnal preifatrwydd ac urddas unigolion.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff. Cyflawnwyd gwiriadau ac archwiliadau manwl i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.**

### Gofal diogel

Gwnaethom edrych ar gofnodion cynnal a chadw cyfarpar a gedwir yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol. Canfuwyd fod yr holl gofnodion o'r fath yn gyfredol ac yn ddilys. Gwnaethom ganfod hefyd bod gwastraff peryglus sy'n aros i gael ei waredu wedi'i gadw mewn man wedi'i gloi, er mwyn gwarchod cleifion a staff.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis. Cadarnhaodd ein harsylwadau fod amgylchedd y practis i'w weld yn lân ac yn hylan, bod digon o gyfarpar, a bod y cyfleusterau o safon dda iawn.

Gwnaethom ystyried y trefniadau glanhau a sterileiddio offer (sydd hefyd yn cael ei alw'n dadheintio) a gwelsom fod gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer dadheintio, fel yr amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)<sup>1</sup>. Roedd gan y practis ddull sefydlog a thrylwyr o fodloni'r agwedd hon ar y gwasanaeth hefyd. Rhoddodd y nyrs ddeintyddol ddisgrifiad llawn a boddhaol i ni o'r broses ddadheintio sydd ar waith ar hyn o bryd. Gwelsom hefyd fod yr holl broses ddadheintio wedi'i hategu gan gofnodion manwl o wiriadau diogelwch dyddiol a gwiriadau rheolaidd eraill o ran gweithredu'r cyfarpar yn effeithiol. Gwelsom fod rhywfaint o offer deintyddol a oedd wedi'u pecynnu a'u cadw'n barod i'w aildefnyddio'n cynnwys dyddiadau "dod i ben" priodol ac roedd dyddiadau "dod i ben" a dyddiadau "wedi sterileiddio ar" ar eraill. Byddai defnyddio un system yn fuddiol. Gwelsom dystiolaeth bod y

---

<sup>1</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

practis wedi cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau trylwyr yn ddiweddar; fodd bynnag, nid yr archwiliad a awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1) oedd hwn.<sup>2</sup>

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Dylai'r practis ystyried defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau fel yr awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1).***

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y prif ddeintydd wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol ar adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a dadebru brys. Roedd dyddiadau eisoes yn y dyddiadur i staff dderbyn hyfforddiant diweddar.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis i'w gweld yn cael eu storio'n ddyfeisgar yn ystod y dydd er mwyn gallu cael mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd yr holl gyffuriau'n cael eu storio'n ddiogel pan oedd y practis ar gau. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau a oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben yn cael eu newid yn brydlon. Y prif ddeintydd oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn unol â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddarau hyfforddiant y staff. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd wedi cael ei chwblhau yn ôl y gofyn ond mae angen ychwanegu enw'r goruchwyliwr ymbelydredd at y wybodaeth. Wrth archwilio cofnodion cleifion gwelsom fod y deintydd yn cofnodi gwybodaeth ddigonol yn gyson i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-X deintyddol penodol. Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Roedd hyn yn golygu bod y deintydd yn gallu sicrhau bod lluniau pelydr-X da a chilir yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

---

<sup>2</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd rhywfaint o fanylion cyswllt y timau diogelu lleol o ran diogelu oedolion a phlant wedi'u cadw o fewn dogfennau polisi, er mwyn cynorthwyo staff pe bai angen hysbysu am faterion o'r fath. Fodd bynnag, mae angen diweddarau rhai manylion. Gwnaethom awgrymu bod aelod o staff yn cysylltu â thîm diogelu'r awdurdod lleol i gadarnhau bod enwau cyswllt a rhifau ffôn yn gywir.

### Gofal effeithiol

Gwnaethom edrych ar sampl o bump o gofnodion deintyddol a siarad â'r prif ddeintydd. O ganlyniad, gwelsom fod ansawdd y manylion am ofal cleifion yn dda iawn ac mai'r unig faes oedd angen ei wella oedd yr angen i'r deintydd lofnodi ac ysgrifennu ei enw ar y cofnodion hanes meddygol.

Roedd y practis yn dosbarthu meddyginiaeth i gleifion, megis gwrthfotigau. Gwnaethom adolygu trefniadau storio meddyginiaeth o'r fath a gwelsom eu bod yn gywir.

Roedd yr holl gofnodion yn electronig ac roedd system wrth gefn briodol oddi ar y safle a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth yn aros yn gyfrinachol ac yn ddiogel.

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Roedd y practis deintyddol yn cael ei gynnal yn effeithlon gan y prif ddeintydd a thîm bach o staff brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion.**

Mae West Wales Dental Implant Clinic yn bractis cymharol newydd a agorodd yn 2014, fodd bynnag roedd y prif ddeintydd yn berchen ar bractis deintyddol cyffredinol yn agos at y practis am nifer o flynyddoedd. Mae'r practis yn gwbl breifat ac mae'n gweld cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan ymarferwyr deintyddol eraill neu sydd wedi atgyfeirio eu hunain. Dim ond fel gwasanaeth preifat y darperir mewnbilanoleg mewn arfer deintyddol cyffredinol.

Y prif ddeintydd sy'n gyfrifol am weithrediad cyffredinol y practis o ddydd i ddydd; ond mae gan bob aelod o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb unigol clir dros agweddau penodol ar y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym a gwelsom eu bod yn gweithio'n rhwydd fel tîm.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal yn dda. Roedd ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd yn sail i weithrediad dyddiol y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi mewn modd diogel ac amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Gwelsom fod angen diwygio'r polisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd i gynnwys rhannau o Safon 1.2 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac nad oedd dyddiadau ar y polisïau cyffredinol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cynnwys yr arfer gorau cyfredol. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd a chytunodd i ddiwygio'r rhain yn syth. Cawsom gadarnhad ar 19/7/16 bod yr uchod wedi cael sylw gan gynnwys y diwygiad i gynnwys Safon 1.2 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y staff nyrsio wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith. Dywedant wrthym hefyd eu bod, ynghyd â'r deintydd, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd lle cânt gyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Roedd cyfarfodydd o'r fath hefyd yn cael eu defnyddio i gyfleu gwybodaeth berthnasol/newydd er bod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn y boreau hefyd cyn dechrau'r diwrnod. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y practis, a oedd yn amlygu'r pynciau/materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm. Dangosodd trafodaethau â staff hefyd eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd am weithrediad y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelodau o'r tîm.

Dangosodd archwiliad o dair ffeil staff fod rhywfaint o fylchau o ran hyfforddiant, ond roedd un aelod o staff yn newydd yn y practis ers tri mis ac roedd un arall

dan hyfforddiant ar y pryd. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn 2015 a oedd yn cynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd ac amddiffyn oedolion a phlant. Dangosodd trafodaethau a dogfennau fod hyfforddiant perthnasol eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer y misoedd nesaf. Gwelsom hefyd ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus y staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant staff.

Cadarnhaodd trafodaeth â'r prif ddeintydd a staff y byddai arfarniad blynyddol yn cael ei gynnal pan fyddai staff wedi bod yn gyflogedig am flwyddyn. Byddai hyn yn gymorth wrth benderfynu a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant yr oedd ei angen yn y dyfodol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod gan staff gontractau cyflogaeth a bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaethom drafod yswiriant indemniad deintyddol a gwelsom fod gan y prif ddeintydd yswiriant ond nid oedd yn amlwg pa lefel o yswiriant oedd yn cael ei chynnig i staff unigol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Mae angen i'r prif ddeintydd sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar sicrwydd indemniad digonol.***

Roedd y practis hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau bod modd i unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol ymgyswngu â gwerthoedd ac ethos y practis, ynghyd â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau cleifion.

Gwelsom fod gan y practis dystiolaeth gyfredol o frechiad Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff clinigol.

Dangosodd trafodaethau â staff deintyddol eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y practis gyda'r prif ddeintydd. Gwelwyd bod polisi chwythu'r chwiban ar waith hefyd i alluogi staff i godi pryderon ynghylch gofal a diogelwch cleifion, os ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn amlwg yn y practis yn unol â gofynion y rheoliadau. Fodd bynnag, nid oedd dim gwybodaeth am aelodau'r tîm (gan gynnwys eu rhif cofrestru ble y bo'n briodol), yn cael ei harddangos mewn man lle gallai cleifion ei gweld.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis arddangos gwybodaeth am aelodau'r tîm mewn man lle gall cleifion ei gweld.***

O archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.



## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn West Wales Dental Implant Clinic yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a adnabuwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>3</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>4</sup> Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: West Wales Dental Implant Clinic**

**Dyddiad yr arolygiad: 12 Gorffennaf 2016**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau.	:			
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
Tudalen 10	Dylai'r practis ystyried defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau a awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1).	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05	Mae Archwiliad Rheoli Croes-heintio'r Gymdeithas Atal Heintiau'n cael ei gynnal bob chwe mis.  Yn ystod y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben ym mis Mai 2016 gwelwyd gwelliant 10% yn y sgôr cyffredinol.  Bydd y dull archwilio a awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru	T. Lewis	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			01-05 yn cael ei ddefnyddio ar unwaith.		
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
Tudalen 13	Dylai'r practis arddangos gwybodaeth am aelodau'r tîm mewn man lle gall cleifion ei gweld.	Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.10	Mae gwybodaeth am aelodau'r tîm bellach yn cael ei harddangos ar y wal yn y man aros ac yn weladwy i bob aelod o'r cyhoedd.	T.Lewis	Cwblhawyd
Tudalen 13	Mae angen i'r prif ddeintydd sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar sicrwydd indemnïad digonol.	Safon Cyngor Deintyddol Cyffredinol: 1.8.1	Fel y trafodwyd yn ystod ymweliad AGIC roeddwn wedi cadarnhau ar lafar bod staff clinigol yn cael eu cynnwys o fewn fy mhrif danysgrifiad practis yn erbyn esgeulustod fel y cadarnheir gan Dental Protection. Mae copi ynghlwm a byddaf yn uwchraddio i gynnwys cyngor a chymorth gyda materion nad ydynt yn hawliadau fel materion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	T.Lewis	Bydd y polisi'n cael ei uwchraddio pan gaiff ei adnewyddu.

## Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Tim Lewis

Teitl: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2016